YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF: 27/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 11/05/2017

# Y dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframwaith statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru

## Crynodeb

### 1. Cefndir

1.1 Defnyddiodd Llywodraeth Cymru ddull cydgynhyrchiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r fframwaith statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd tri grŵp ymgysylltu eu sefydlu ar lefel strategol ac ar lefel arwain er mwyn pennu cyfeiriad: Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Grŵp Arwain, a Phanel Cenedlaethol Dinasyddion Cymru ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol (y Panel Dinasyddion o hyn ymlaen). Sefydlwyd nifer o grwpiau technegol hefyd i gyflawni gwaith ymgysylltu ar lefel gwasanaeth er mwyn datblygu'r polisi manwl. Roedd y grwpiau'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, y sector iechyd, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd oedd â phrofiad personol o wasanaethau gofal a chymorth.

### 2. Nodau a Methodoleg y Gwaith Ymchwil

2.1 Fel rhan o Raglen Ymchwil Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, gwnaed gwaith ymchwil ansoddol i werthuso'r dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd. Pwrpas y gwaith ymchwil oedd deall safbwyntiau rhanddeiliaid ar sut roedd y dull cydgynhyrchiol wedi gweithio'n ymarferol, gan gynnwys yr hyn a oedd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella. Y nod oedd canfod gwersi i'w dysgu er mwyn helpu i lywio ffyrdd o ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol.

2.2 Dewiswyd ugain o randdeiliaid i gymryd rhan mewn cyfweliadau lled-strwythurol, gan gynnwys pum aelod o'r Grŵp Arwain, pum aelod o'r Panel Dinasyddion a deg aelod o'r grwpiau technegol.

Cynhaliwyd 13 o gyfweliadau ffôn a chwech o gyfweliadau wyneb yn wyneb rhwng 6 Medi a 9 Tachwedd 2016. Gofynnodd un rhanddeiliad am gael ymateb yn ysgrifenedig yn lle hynny. Gwnaed recordiadau sain o'r holl gyfweliadau a chafodd y recordiadau eu trawsgrifio air am air a'u dadansoddi'n thematig.

## 3. Canfyddiadau Allweddol

### Defnyddio dull cydgynhyrchiol

3.1 Roedd rhanddeiliaid yn y Grŵp Arwain, y grwpiau technegol a'r Panel Dinasyddion yn gadarnhaol iawn am ymdrech Llywodraeth Cymru i ddefnyddio dull a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid a dinasyddion yn fwy yn y broses o ddatblygu polisi nag a welwyd fel arfer yn y gorffennol. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol am arwain y ffordd, gan fodelu dull partneriaeth ar raddfa fawr y mae rhanddeiliaid yn disgwyl iddo gael ei ddefnyddio'n ehangach yn y dyfodol. Dywedwyd bod y dull yn wahanol i'r model traddodiadol fel y'i gwelwyd, sef cyfarwyddiadau o'r canol.

### Y defnydd a wnaed o wybodaeth ac arbenigedd rhanddeiliaid

3.2 Roedd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol yn gadarnhaol ar y cyfan am gynrychiolaeth o fewn eu grwpiau. Roedd yn ymddangos bod aelodau'r Grŵp Arwain yn fodlon bod rhanddeiliaid allweddol wedi'u cynrychioli. Amrywiaeth barn oedd y peth pwysicaf i aelodau'r grwpiau technegol ac roeddent yn teimlo ar y cyfan fod eu grwpiau'n cynrychioli ystod amrywiol o sectorau a swyddi. Dywedwyd bod hyn i'w weld yn yr ystod eang o safbwyntiau a rannwyd a'r trafodaethau cyfoethog a gafwyd yn ystod cyfarfodydd. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella. Teimlai aelodau rhai o'r grwpiau technegol y gellid bod wedi cynnwys mwy o'r sector iechyd a'r ochr gyflawni. Awgrymwyd y gallai grwpiau drafod unrhyw safbwyntiau nas cynrychiolwyd yn y cyfarfod cyntaf ac ailwerthuso hyn yn barhaus drwy gydol y broses.

3.3 Roedd aelodau'r Panel Dinasyddion yn gadarnhaol hefyd am amrywiaeth o fewn eu grŵp. Roeddent yn teimlo bod cynrychiolaeth gan bobl a oedd yn darparu gofal a chymorth, a'r rhai a oedd yn derbyn gwahanol fathau o ofal a chymorth, wedi datgelu ystod o brofiadau. Cafodd amrywiaeth ranbarthol y panel ei chanmol hefyd. Cafodd rhai pobl ifanc eu cynnwys i ddechrau, ond gwnaethant roi'r gorau i gymryd rhan yn gynnar yn y broses; dywedwyd bod hwn yn fwlch yr oedd angen ei ystyried yn ofalus.

3.4 Safbwynt amlwg a fynegwyd gan y tri grŵp oedd y byddai'r dull cydgynhyrchiol wedi cael budd o ymgysylltu ehangach, y tu hwnt i'r rhai a oedd o amgylch y bwrdd fel rhan o'r grwpiau. I'r rhanddeiliaid hynny a fynegodd y safbwynt hwn, roedd angen mynd allan at y bobl, gan gynnwys cymunedau; grwpiau neu rwydweithiau hen a newydd o bobl sy'n cael neu'n darparu gofal a chymorth; a gwasanaethau a mentrau cymdeithasol. Ystyriwyd y gallai'r ymgysylltu ehangach hyn gyflawni sawl swyddogaeth wahanol: yn rhannol byddai'n helpu i ddeall yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad, cael safbwyntiau o'r rheng flaen a rhannu gwybodaeth â chymunedau ac ymarferwyr.

3.5 Pwynt arall a wnaed mewn perthynas ag ymgysylltu ehangach oedd ei bod yn ymddangos nad oedd fawr o eglurder ynghylch y rôl yr oedd disgwyl i aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol ei chwarae o ran cynrychioli ac ymgynghori ag eraill - boed yn staff o fewn eu sefydliadau, neu'r sefydliadau, y darparwyr neu'r cymunedau yr oeddent yn eu cynrychioli.

**Cydgynhyrchu yn ymarferol**

3.6 O ran sut roedd y bartneriaeth â Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n ymarferol, roedd rhai rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn, tra roedd eraill yn teimlo nad oedd wedi arwain at gydgynhyrchu go iawn neu y gellid bod wedi mynd ymhellach.

3.7 Dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrech arbennig i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan ddangos diddordeb didwyll a phwrpasol mewn cynnwys pobl a gweithio mewn partneriaeth. Roedd penderfynoldeb Llywodraeth Cymru i ddal y bartneriaeth ynghyd nes y diwedd, er gwaetha'r heriau a gododd ar hyd y ffordd, wedi creu argraff ar randdeiliaid o'r Grŵp Arwain. Gwerthfawrogwyd gonestrwydd swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn a oedd yn ymarferol a'r goblygiadau o ran adnoddau, ond cafwyd safbwyntiau amrywiol ar y graddau y gwnaed hyn.

3.8 Gwelwyd gwahaniaeth barn rhwng y tri grŵp ynghylch cydbwysedd y bartneriaeth. Teimlai rhai rhanddeiliaid fod y bartneriaeth yn gyfartal; teimlai eraill y gellid gwneud gwelliannau yn hyn o beth. Roedd yn ymddangos bod cysylltiad rhwng y safbwyntiau hyn â natur y dasg a osodwyd i randdeiliaid ac ar ba gam o'r broses y cawsant eu cynnwys. Un safbwynt oedd bod y broses wedi dechrau'n rhy fewnol ac y dylai rhanddeiliaid fod wedi helpu i gydlunio'r syniad o'r hyn yr oedd ei angen, cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ar y cyfeiriad polisi. Safbwynt arall, fodd bynnag, oedd y cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys ar gam priodol a bod cael drafftiau cychwynnol ymlaen llaw wedi helpu yn hytrach na llesteirio'r broses. O safbwynt cydbwysedd y bartneriaeth, nododd y Panel Dinasyddion hefyd y dylai'r broses gydgynhyrchu gynnwys gosod yr agenda ar gyfer yr hyn y byddant yn ei ystyried fel grŵp, ond cafwyd safbwyntiau amrywiol ar y graddau y gwnaed hyn.

3.9 Dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol yn gyson eu bod wedi cael cyfle i leisio barn yn ystod cyfarfodydd, a thrafod a phwyso a mesur safbwyntiau pawb. Ystyriwyd bod ansawdd y gwaith hwyluso yn allweddol yn hyn o beth. Ystyriwyd bod annog aelodau tawelaf y grŵp i rannu eu barn yn bwysig a theimlwyd bod hyn wedi cael ei reoli'n eithaf da ar y cyfan, ond teimlai rhai rhanddeiliaid y gellid bod wedi gwneud mwy yn eu grwpiau hwy. Dywedwyd hefyd fod amrywiaeth o fewn grwpiau yn bwysig er mwyn sicrhau nad oedd sectorau penodol yn teimlo eu bod yn cael eu bychanu ac nad oedd safbwyntiau amgen yn cael eu boddi.

3.10 Dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol hefyd fod eu safbwyntiau wedi cael gwrandawiad ac wedi cael eu parchu, a bod ymdrech ar y cyd i ddeall y materion a godwyd ganddynt. Wrth gwrs, ni chafodd pob safbwynt ei dderbyn a'i ddatblygu ond, ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn derbyn bod cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei wneud yn hyn o beth. Yn hytrach, y

ffactor hanfodol iddynt hwy oedd tystiolaeth bod eu safbwyntiau wedi cael eu hystyried a'u harchwilio'n fanylach.

3.11 Roedd consensws ymhlith aelodau'r Grŵp Arwain fod eu cyfraniad wedi effeithio ar y broses a'r canlyniad. Roeddent yn teimlo bod drafftiau wedi cael eu haddasu mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd ganddynt a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella. Roeddent yn teimlo bod ymdrechion da wedi cael eu gwneud i gydnabod eu safbwyntiau ac ymateb iddynt, a dywedwyd eu bod wedi cael adborth agored a gonest.

3.12 I aelodau'r grwpiau technegol, roedd yn bwysig bod o leiaf rai o'u pwyntiau'n cael eu derbyn a'u defnyddio ac, ar y cyfan, roeddent yn teimlo bod hyn wedi digwydd. Fodd bynnag, byddai rhai aelodau wedi gwerthfawrogi cael adborth mwy manwl ar y pwyntiau a wnaed ganddynt, yr hyn a wnaed o ganlyniad iddynt, a pham na chafodd pwyntiau penodol eu derbyn a'u datblygu.

3.13 Roedd aelodau'r Panel Dinasyddion yn gadarnhaol hefyd am y cyfleoedd a gawsant i leisio barn. Dywedwyd bod perthynas gadarnhaol a chefnogol wedi datblygu o fewn y grŵp a oedd wedi'u helpu i deimlo'n gyfforddus i rannu eu barn. Adroddiadau a luniwyd gan hwylusydd annibynnol ar ôl pob cyfarfod oedd y prif ddull a ddefnyddiwyd i rannu eu safbwyntiau y tu allan i'r panel. Dywedwyd bod y pwyntiau a godwyd yn ystod cyfarfodydd wedi'u cofnodi'n gywir yn yr adroddiadau, ond cafwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch p'un a oeddent yn ddigon manwl. Teimlai rhai aelodau y gallai'r adroddiadau fod wedi cynnwys mwy o fanylion am brofiadau pobl, tra roedd eraill yn fodlon bod y llythyrau a'r ffilmiau a gyflwynwyd ar y cyd â'r adroddiadau yn ffordd well o gyfleu'r 'storïau' y tu ôl i safbwyntiau.

3.14 Er y cafodd y Panel Dinasyddion ei sefydlu er mwyn ymgysylltu ar lefel arwain, roedd safbwyntiau'r aelodau ar effeithiolrwydd eu cyfraniad yn wahanol iawn i'r Grŵp Arwain. Teimlai rhai o aelodau'r panel fod eu cyfraniad wedi cael ei ddefnyddio a'i fod wedi gwneud rhywfaint o wahaniaeth o ran sicrhau bod y polisi'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion. Fodd bynnag, teimlai aelodau eraill eu bod yn cyflawni un o ddisgwyliadau'r broses ac na chafodd eu cyfraniad ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosibl.

3.15 Ni allai aelodau'r Panel Dinasyddion feddwl am gyfraniadau gwirioneddol yr oeddent wedi'u gwneud i'r fframwaith statudol. Er y diolchwyd iddynt am eu cyfraniad, dywedwyd nad oeddent wedi cael adborth ar enghreifftiau penodol o'r modd roedd eu cyfraniadau wedi newid syniadau neu ddiwygio'r polisi. Dywedwyd bod adborth yn hollbwysig er mwyn datblygu sgwrs ddwyffordd a fyddai, yn eu barn hwy, wedi gwneud i'r prosiect deimlo fel mwy o brosiect a rennir. Un awgrym oedd y gallai swyddogion polisi ddod yn ôl yn ddiweddarach ar ôl cael yr adroddiadau i drafod y pwyntiau a wnaed, neu anfon adborth ysgrifenedig.

3.16 Yn ôl rhai o aelodau'r panel a rhanddeiliaid eraill, mae'n debyg mai un cyfraniad roedd y Panel Dinasyddion wedi'i wneud oedd hyrwyddo'r syniad o gynnwys Paneli Dinasyddion yn fwy cyffredinol.

3.17 Gwerthfawrogwyd yr adegau hynny pan roedd gweinidogion a swyddogion polisi wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Panel Dinasyddion gan ei fod yn dangos bod mewnbwn y grŵp yn cael ei

gydnabod a'i werthfawrogi a'i fod yn cael gwrandawiad. Teimlai rhai aelodau y gallai hyn fod wedi digwydd yn fwy rheolaidd yn ymarferol. Dywedodd rhai aelodau hefyd y byddent wedi teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy pe baent wedi cael mwy o gyfle i rannu eu safbwyntiau â'r grwpiau rhanddeiliaid eraill yn uniongyrchol a phe bai pobl wedi ymddiried ynddynt i wneud hynny.

**Y broses a'r agweddau ymarferol**

3.18 Teimlai rhai rhanddeiliaid fod gormod o gyfarfodydd wedi'u cynnal yng Nghaerdydd ac y gellid eu cynnal am yn ail mewn rhanbarthau gwahanol, ond teimlai eraill ei bod yn fwy priodol eu cynnal yng Nghaerdydd am fod y mwyafrif o aelodau'r grwpiau yn byw yno. Gwnaed rhai awgrymiadau i ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio adnoddau fideo-gynadledda ac ar-lein yn y dyfodol, ond cydnabuwyd cyfyngiadau'r dulliau hyn. Roedd y Panel Dinasyddion yn ymddangos fel pe bai'n fodlon bod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal mewn lleoliadau gwahanol er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ranbarthol ei aelodau.

3.19 O ran y Grŵp Arwain, yr adborth allweddol a gafwyd ar fformat y cyfarfodydd oedd eu bod yn tueddu i ddilyn agenda eitem fesul eitem draddodiadol. Byddai rhai aelodau wedi hoffi gweld sesiynau mwy rhyngweithiol yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r agweddau ffurfiol angenrheidiol er mwyn trafod pynciau penodol yn fanylach. Adborth arall a gafwyd oedd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cynnwys rhywfaint o amser myfyrio yn y broses – er enghraifft, drwy ailedrych ar rai pwyntiau mewn sesiynau dilynol.

3.20 Roedd aelodau'r grwpiau technegol yn fodlon ar fformat y cyfarfodydd ar y cyfan. Fodd bynnag, cafwyd adborth gan rai aelodau ar weithgareddau nad oeddent, yn eu barn hwy, yn gwneud y defnydd gorau o amser yn ystod cyfarfodydd, gan gynnwys gosod y cyd-destun a sefydlu safbwyntiau gwahanol. Awgrymwyd y gellid gofyn i aelodau lunio datganiadau sefyllfa ymlaen llaw yn lle hynny. Amrywiai safbwyntiau aelodau'r grwpiau technegol ar nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd a'r amserlenni, a gallai hyn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yn strwythur y grwpiau. Teimlai rhai aelodau eu bod wedi cael digon o amser i gwblhau eu tasg. Safbwynt cyferbyniol oedd bod y ddau fis a roddwyd i un grŵp yn rhy fyr a'i fod wedi effeithio ar ansawdd gwaith y grŵp.

3.21 O safbwynt y Panel Dinasyddion, roedd rhai aelodau wedi canmol yr hwyluswyr annibynnol am wneud i'r broses weithio mor dda, ond teimlai eraill y gallai'r hwyluswyr fod wedi dangos dealltwriaeth well o'r polisi a mwy o sensitifrwydd tuag at sefyllfaoedd aelodau'r panel.

3.22 Roedd yn bwysig sicrhau bod holl aelodau'r Panel Dinasyddion yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt i fynychu cyfarfodydd a chymryd rhan mor lawn â phosibl. Dywedodd rhai aelodau fod y cymorth wedi gweithio'n dda. Roeddent yn teimlo y gallai aelodau godi problemau ar unrhyw adeg ac y byddai'r problemau hyn yn cael eu hystyried. Roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod cynorthwywyr personol ar gael, a eisteddai gyda rhai aelodau i egluro'r pwnc a'r drafodaeth ar lefel addas. Safbwynt arall, fodd bynnag, oedd y byddai rhai o'r rheini na chafodd gymorth personol yn ystod cyfarfodydd wedi cael budd o gymorth o'r fath, ac y gellid bod wedi holi aelodau ynghylch hyn yn benodol drwy gydol y broses. Roedd yr argymhellion eraill a wnaed i helpu aelodau'r panel i

gymryd rhan yn llawn yn cynnwys gwneud mwy o ysgrifennu a llai o siarad a gwneud mwy o waith mewn grwpiau bach.

3.23 Canmolwyd y ffaith bod holl ddogfennau briffio ac adroddiadau'r Panel Dinasyddion ar gael mewn fformatau safonol a hawdd eu darllen. Fodd bynnag, dywedwyd y gallai rhai aelodau – neu'r holl aelodau – fod wedi cael budd o hyd o gymorth ychwanegol i ddeall pwyntiau allweddol. Yn olaf, roedd yr opsiwn o ddewis ffilm a'r sesiynau Skype anffurfiol a drefnwyd rhwng sesiynau yn boblogaidd.

3.24 Un thema amlwg a godwyd gan y tri grŵp oedd nad oedd digon o gyswllt rhyngddynt. Dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r Panel Dinasyddion eu bod wedi cael eu cadw ar wahân nes iddynt ddod ynghyd mewn sesiwn tuag at y diwedd, a fu'n ddefnyddiol iawn iddynt. Roeddent yn teimlo bod dod ynghyd yn fwy rheolaidd yn fuddiol, gan gynnwys o safbwynt cael cyfleoedd i gyfnewid syniadau, trafod heriau ar y cyd a sefydlu nodau cyffredin.

3.25 Teimlai aelodau'r grwpiau technegol hefyd y gellid bod wedi cynnwys dinasyddion i raddau mwy yn eu grwpiau. Yn gyntaf, byddai rhai o aelodau'r grwpiau technegol fod wedi hoffi gweld dinasyddion yn cael eu cynrychioli yn eu grwpiau, gydag ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i sut i wneud hyn mewn ffordd ystyrlon a sensitif. Yn ail, nid oedd aelodau'r grwpiau technegol yn gwybod a oedd y Panel Dinasyddion wedi gweld eu hallbynnau, ond nid oeddent wedi cael unrhyw adborth ac roeddent yn teimlo y byddai hyn wedi bod yn ddefnyddiol.

**Buddiannau cydgynhyrchu**

3.26 Teimlai rhanddeiliaid fod defnyddio dull cydgynhyrchiol wedi arwain at ganlyniadau a chynhyrchion gwell gan eu bod wedi'u llywio gan safbwyntiau amrywiol. Ystyriwyd bod cynyddu perchenogaeth a chefnogaeth rhanddeiliaid yn un o fuddiannau eraill y dull cydgynhyrchiol. Awgrymodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol fod rhanddeiliaid yn fwy tebygol o dderbyn y polisi, ei gefnogi ac ymddiried ynddo os oeddent hwy (neu'u cydweithwyr) wedi helpu i'w ddatblygu, hyd yn oed os nad oeddent yn cytuno â phob elfen. Nodwyd hefyd fod perchenogaeth yn creu hyrwyddwyr ar gyfer y newid polisi.

3.27 Teimlai'r tri grŵp fod cymryd rhan yn y camau datblygu wedi'u helpu i ddeall y polisi. Dywedodd rhanddeiliaid ei fod wedi rhoi dealltwriaeth iddynt o'r syniadau sy'n sail i'r newidiadau, bwriad y polisi a sut roedd y polisi'n datblygu. Roedd hefyd wedi'u galluogi i brofi eu safbwyntiau eu hunain yn erbyn rhai rhanddeiliaid eraill. Mae'n debyg bod y ddealltwriaeth hon wedi'u helpu i baratoi'n well ar gyfer rhoi'r polisi ar waith o fewn eu sefydliad neu'u sector eu hunain. Yn ogystal, dywedodd rhai o aelodau'r grwpiau technegol a dinasyddion fod cymryd rhan wedi gwella eu dealltwriaeth o faterion llunio polisi a'r broses ddeddfwriaethol yn fwy cyffredinol.

3.28 Dywedodd aelodau'r Grŵp Arwain a'r grwpiau technegol eu bod wedi rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt am y polisi â'u rhwydweithiau, ond roedd natur y wybodaeth a rannwyd a'r graddau y gwnaed hynny yn dibynnu ar eu sefydliad a'u rôl. Dywedodd llawer eu bod wedi trafod y polisi â chydweithwyr yn eu sefydliadau eu hunain. Dywedodd rhai rhanddeiliaid eu bod wedi cael sgyrsiau

ehangach, lle bo hynny'n berthnasol i'w rôl. Dywedodd y rhai sy'n gweithio i gyrff ambarél eu bod wedi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r sefydliadau sy'n aelodau o'r cyrff hynny hefyd. Yn ogystal, dywedodd rhanddeiliaid yn y tri grŵp fod eu rôl mewn gweithgareddau rhannu gwybodaeth a drefnwyd wedi bod yn fuddiol.

3.29 Am fod aelodau'r Grŵp Arwain, yn ogystal â rhai o aelodau'r grwpiau technegol, yn teimlo bod ganddynt gydberthnasau gwaith cryf â Llywodraeth Cymru yn barod, nid oeddent o'r farn bod y gydberthynas wedi newid. Fodd bynnag, teimlai rhai o aelodau'r grwpiau technegol, nad oeddent wedi rhyngweithio â Llywodraeth Cymru i'r un graddau o'r blaen, fod eu rôl wedi helpu i atgyfnerthu eu cydberthnasau â swyddogion polisi penodol. Yn olaf, roedd parodrwydd Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn thema a gododd yn rheolaidd ac ystyriwyd bod hyn wedi helpu i greu cydberthynas fwy ymddiriedus ac adeiladol, gyda mwy o barch ar y ddwy ochr.

Awduron yr Adroddiad:
Eleri Jones a Sharon Cross, Llywodraeth Cymru

Adroddiad llawn ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/co-productive-approach-taken-develop-statutory-framework-social-services-well-being-act-2014/?lang=cy

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Eleri Jones
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: eleri.jones061@cymru.gsi.gov.uk

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-9631-6